# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 29 Ionawr 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy, Martyn Holland, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd) a/ac Jason McLellan (Cadeirydd)

Cynghorwyr Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Ieuenctid a Hamdden a Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Swyddog Arweiniol, Busnes a Pherfformiad (AMc), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Archwilio (BS), Prif Gyfrifydd (RW), Cyfrifydd Technegol (RIJ), Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol (CB), Dirprwy Swyddog Monitro (LJ), Pennaeth AD Strategol (LA) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley

Cafwyd ymddiheuriadau hefyd oddi wrth y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau.

Agorodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jason McLellan, y cyfarfod drwy ddiolch i’r Pennaeth Archwilio Mewnol am gyflwyniad y cwrs a gynhaliwyd y diwrnod cynt. Diolchodd y Cynghorydd McLellan hefyd i’r aelodau fu’n bresennol. Cafwyd adborth cadarnhaol yn dilyn y cwrs.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jason McLellan, gysylltiad personol ag Eitem 14 ar yr Agenda – Dyfodol Hamdden Clwyd.

## 3 MATERION BRYS

Dim eitemau brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2013.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2013 yn gywir.*

Cytunodd y Cadeirydd i newid trefn yr Agenda a gyhoeddwyd yn wreiddiol.

**5 CYTUNDEB SETLIAD - DIWEDDARIAD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, Adroddiad Diweddaru'r Cytundeb Setliad (a gylchredwyd yn flaenorol) a roddai i'r Aelodau fanylion yr adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan yr Adran Archwilio.

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw bolisi na chod ymarfer ffurfiol er mwyn ymdrin ag achosion. Nid oedd ychwaith unrhyw drefnau ffurfiol i'w dilyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gyson, yn deg ac yn agored, nac i ddarparu achos busnes ar gyfer pob cytundeb.

Roedd proses ddrafft wedi cael ei datblygu a oedd yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ystod yr adolygiad archwilio.

Cytunwyd y dylid cyflwyno'r ffigurau diweddaraf gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol bob blwyddyn. Awgrymodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y dylid cyflwyno'r ffigurau gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mehefin bob blwyddyn.

***PENDERFYNWYD** y dylai Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi a chytuno ar gynnwys Adroddiad Awdurdodi'r Cytundeb Setliad.*

**6 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2014/15 A DIWEDDARIAD**

Cyflwynodd y Prif Gyfrifydd Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2014/15 a Diweddariad (cylchredwyd yn flaenorol)

Roedd y DSRhT yn dangos sut y byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn pennu'r polisïau y byddai'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys yn gweithredu'n unol â hwy. Amlinellai'r adroddiad hefyd effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth ac ar y Dangosyddion Darbodus.

Darparai'r Adroddiad Diweddaru Rheoli Trysorlys fanylion am weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2013/14.

Roedd Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys, yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r DSRhT a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

Cynhaliwyd trafodaeth, a chyfeiriwyd at yr Adeilad PFI yn Rhuthun.

Roedd y Fenter Cyllid Preifat yn drefniant costus yn y tymor hir, ac wedi'i hariannu drwy grant. Ar hyd oes y contract, byddai cyfraniadau Cyngor Sir Ddinbych yn cynyddu.

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi craffu ar Gytundeb y Fenter a oedd yn hynod gymhleth, ac a oedd yn cynnwys cymalau maith ynghylch terfynu. Byddai cyngor arbenigol yn cael ei geisio yn y dyfodol er mwyn ymdrin â'r Cytundeb.

Gofynnodd y Cynghorydd Peter Duffy am wybodaeth am fenthyciadau hirdymor o'r gorffennol e.e. ar gyfer beth yr oeddynt, a faint o amser oedd ar ôl ar y telerau hynny. Cytunodd y Prif Gyfrifydd i anfon yr wybodaeth hon.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi:-*

*(a) Adolygiadau'r Datganiad Strategol ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2014/15 a Dangosyddion Darbodus 2014/15, 2015/16 a 2016/17, a*

*(b) Adroddiad diweddaru Rheoli'r Trysorlys.*

**7 STRATEGAETH POBL 2011/14 – ADRODDIAD CAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CC: MaLl) y Strategaeth Pobl 2011-2014 – Adroddiad Cau (a gylchredwyd yn flaenorol). Disgrifiai'r adroddiad y cynnydd a gafwyd wrth gyflawni yn erbyn y Strategaeth Pobl, gan nodi materion a oedd yn weddill ac argymell y camau nesaf.

Er bod themâu allweddol yn y Strategaeth yn dal i fod yr un peth, roedd y cynllun gweithredu wedi esblygu dros amser i ystyried newidiadau sylweddol. Roedd y newidiadau hyn wedi cynnwys:

- Y Cyngor newydd a ddaeth i mewn yn 2012 ynghyd â chytundeb ar flaenoriaethau corfforaethol newydd a'r Cynllun Corfforaethol
- Y pwyslais llai ar gydweithio
- Materion capasiti yn deillio o'r angen i roi sylw ar frys i weithrediadau beunyddiol yn yr Adran Adnoddau Dynol – a arweiniodd at ddatblygu'r Cynllun Gwella AD
- Safbwynt yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth fod angen cael mwy o ffocws i'r cynllun gweithredu, a bod angen iddo fod yn fyrrach.

Cytunodd y CC: MaLl i roi trosolwg i'r Aelodau o'r ymatebion i Arolygon Staff 2011-2013.

Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau allweddol wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, wrth arfarnu cynnydd yn erbyn yr amcanion a bennwyd byddai angen rhoi sylw parhaus i rai materion er mwyn symud ymlaen â gwaith AD strategol. Dyma'r materion hynny:

- Trefniadau clir ar gyfer gwerthuso ansawdd ac effaith gwaith a rhaglenni AD strategol. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys yr angen i werthuso

effeithiolrwydd systemau cymorth presennol AD, gan gynnwys canllawiau AD ar y Fewnrwyd a'r Cynllun Hyfforddi Corfforaethol. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei drafod yn rhan o'r Cynllun Busnes AD.

- Pa mor hir yr oedd hi'n cymryd i gytuno ar bolisïau ac arferion gwaith newydd, a sicrhau eu bod wedi'u hymwreiddio. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cydymffurfio â'r Polisi Geirdaon a byddai'n cynnwys y Polisi Presenoldeb newydd a pholisïau/canllawiau sy'n cefnogi gweithio symudol. Roedd materion cyffredinol i'w hystyried yn gysylltiedig â'r Cynllun Busnes AD. Yn ychwanegol at hyn, byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i sicrhau bod y Polisi Presenoldeb newydd yn cael ei roi ar waith ar ôl cytuno arno, a'r Bwrdd Moderneiddio yn cadw golwg ar bolisïau/canllawiau sy'n ymwneud ag oriau hyblyg a gweithredu hynny mewn modd effeithiol.
- Systemau effeithiol ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd a'u cymhwyso i feysydd gwaith newydd. Y brif enghraifft oedd ymdrechion i hyrwyddo rheolaeth effeithiol ar newid. O ystyried maint y newidiadau sy'n deillio o arbedion effeithlonrwydd, a goblygiadau posib adolygiad Williams, byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i ganolbwyntio'n sylweddol ar sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflwyno newid mewn modd effeithiol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi:*

*(i) Y cynnydd a gafwyd a'r trefniadau i sicrhau sylw parhaus i'r agweddau sy'n weddill*

*Bod y gwaith cwmpasu'n cael ei gwblhau er mwyn pennu'r heriau strategol o ran AD a wynebir gan y Cyngor yn ystod 2014/17.*

## 8 STRATEGAETH RHEOLI GWYBODAETH – RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth – Rhaglen Waith i'r Dyfodol (cylchredwyd yn flaenorol).
Roedd Strategaeth Rheoli Gwybodaeth newydd y Cyngor wedi cael ei chyflwyno'n flaenorol gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 18 Rhagfyr 2013. Roedd y Pwyllgor wedi cydnabod bod angen Strategaeth o'r fath ac wedi gofyn am gael cyflwyno Rhaglen Waith i'r Dyfodol gerbron y cyfarfod hwn er mwyn gweithredu'r Strategaeth.

Cynhaliwyd trafodaeth gyffredinol wrth i'r Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol egluro'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

Byddai digwyddiad hyfforddi'n cael ei gynnal ar 21 Chwefror 2014 o dan y teitl hyfforddiant Mynediad at Wybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:*

*(i) Nodi'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol*

*Cytuno bod diweddariad am gynnydd a wnaed wrth weithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor mewn chwe mis, a phob blwyddyn wedi hynny.*

**Yn y fan hon (11.15 a.m.), cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailgynullwyd y Pwyllgor am 11.30 a.m.**

## 9 DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad blynyddol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (DRhPY) 2000 (a gylchredwyd yn flaenorol) er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am weithgarwch y Cyngor yn y maes hwn.

Mae Codau Ymarfer y Swyddfa Gartref yn gysylltiedig â'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol roi adroddiad i'w haelodau etholedig am weithgarwch y Cyngor, mewn perthynas ag unrhyw guddwylio.

Roedd y Ddeddf yn rheoleiddio'r defnydd o dechnegau cuddwylio a ddefnyddiwyd gan gyrff amrywiol fel yr Heddlu, y lluoedd arfog, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol. Daeth y Ddeddf i rym er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yr unigolyn yn cael eu diogelu.

Yn ychwanegol at unrhyw hawliau dynol, roedd yn rhaid i weithrediadau cuddwylio fod yn ystyriol o unrhyw Godau Ymarfer gan y Swyddfa Gartref. Roedd y Codau Ymarfer yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflwyno adroddiadau rheolaidd (bob blwyddyn o leiaf) i'r aelodau ar weithgarwch y Cyngor yn y maes hwn.

Roedd Gweithgor DRhPY wedi cael ei sefydlu a oedd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (y Swyddog Monitro) a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn rhoi hyfforddiant ar y Ddeddf. Byddai angen cadw cofnodion o bwy fyddai'n mynd i'r sesiynau hyfforddi.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.*

## 10 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (a gylchredwyd yn flaenorol) er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch:

- Cyflawni'r Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar
- Ymateb Rheolwyr i'r materion a godwyd.
- Perfformiad Archwilio Mewnol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:*

*(i) Ystyried a nodi cynnydd a pherfformiad yr Adran Archwilio Mewnol hyd yma yn 2013/14*

*Ystyried a nodi'r adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyhoeddwyd a'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd.*

## 11 CYNLLUN GWEITHREDU'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd yn flaenorol) i'r aelodau. Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ydoedd a ddeilliai o'r adolygiad o fframwaith llywodraethu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) 2012/13 y Cyngor.

Roedd Grŵp Llywodraethu'r Cyngor yn rheoli proses y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'r broses o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd y Grŵp Llywodraethu wedi datblygu Cynllun Gweithredu a oedd wedi cael ei ddiweddaru, ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf, i ddangos y cynnydd hyd yma a chynigion am raddfeydd amser lle bo modd.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol dderbyn a nodi Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.*

## 12 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Bu'r Cynghorydd Martyn Holland yn bresennol yn y cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol. Rhoddodd grynodeb byr o'r cyfarfod hwnnw.

Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal ynglŷn â'r gwasanaethau dehongli a ddarperir – nid yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unig, ond hefyd mewn braille ac ieithoedd eraill.

Dangosai'r cofnodion bresenoldeb gwael yn sesiynau Hyfforddiant Cydraddoldeb yr Aelodau.

Roedd hyfforddiant Cydraddoldeb i'r Staff yn parhau.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi'r diweddariad a gafwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland.*

## 13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Raglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'r Dyfodol (cylchredwyd yn flaenorol).

Cytunodd y Pwyllgor y dylid ychwanegu'r adroddiadau canlynol at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol:

26 Mawrth 2014:

- Twyll – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

- Drafft o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Pennaeth Archwilio Mewnol

Mai, 2014:

- Materion yr Arolwg Staff – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Cytunodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jason McLellan i ofyn am gadarnhad yng Ngrŵp y Cadeiryddion a’r Is-gadeiryddion Archwilio ynghylch pa eitemau y dylid eu cyflwyno o’r Pwyllgorau Archwilio neu o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Hysbysodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y Cadeirydd y byddai angen cyflwyno Cwmnïau Hyd Braich, ond y byddai angen cadarnhad ynghylch pa Bwyllgor.

Roedd ymgynghoriad ar ddyfodol Archwilio Mewnol wedi cael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod a fyddai’n cael ei gynnal ar 26 Mawrth. Hysbysodd Gwilym Bury o Swyddfa Archwilio Cymru y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar archwilio allanol yn rhan o’r arbedion effeithlonrwydd, ac y byddai’n rhaid i’r Awdurdod Lleol ymateb erbyn 14 Mawrth 2014, felly byddai cyfarfod ar 26 Mawrth yn rhy hwyr.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai cyfarfod gweithredu yn cael ei gynnal yn fuan â’r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o staff lefel uwch i ystyried y mater.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylai’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gymeradwyo’r Rhaglen Waith i’r Dyfodol.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *Gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra’n ystyried yr eitemau canlynol, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y diffinnir hi ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 14 DYFODOL HAMDDEN CLWYD CYF

Cyflwynodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad cyfrinachol ar ddyfodol Hamdden Clwyd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr eitem wedi cael ei chyflwyno’n flaenorol yng nghyd-gyfarfodydd Grŵp Ardal Aelodau’r Rhyl a Phrestatyn, a bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet. Roedd y Cabinet wedi argymell y dylid cyflwyno adroddiad am ddyfodol Hamdden Clwyd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden. Trafodai’r adroddiad y materion a godwyd yn achos Hamdden Clwyd.

Yn ystod trafodaethau manwl, talodd y Cynghorydd Hugh Jones deyrnged i'r Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden, y Swyddog Arweiniol, Busnes a Pherfformiad a'u timau am eu gwaith caled.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cytuno:*

*(i) Y dylid nodi'r sefyllfa, a'i bod yn ormod o risg i'r Cyngor gymryd awennau Cwmni Hamdden Clwyd.*
*(ii) Yn sgil y pryderon parhaus, a chanfyddiadau'r ymarfer diwydrwydd dyladwy, fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cydnabod nad oedd gan y Cyngor unrhyw ddewis ond rhoi'r gorau'n llwyr i ariannu Hamdden Clwyd o 1 Ebrill 2014.*
*(iii) I gefnogi bod y cyllid cyfredol sydd ar gael i gynnal Hamdden Clwyd (tua £200,000 yn 2014/15) yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r newidiadau hyn ac i ddatblygu darpariaeth interim tra bo'r Cyngor yn penderfynu ynglŷn â'r ddarpariaeth fwy hirdymor ar yr arfordir.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 p.m.**